# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**DYDD LLUN, 19EG MEHEFIN, 2017**

**I DDILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 9 Mehefin 2017)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels
Annwen Hughes
Edgar Wyn Owen
Peter Read
Steve Collings
Dafydd Owen
Rheinallt Puw
Elfed Williams

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Eryl Jones-Williams
Dewi Wyn Roberts
Louise Hughes
Jason Wayne Parry

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Gareth Williams

## Llaf / Rhydd (1)

Y Cynghorydd
Sion W. Jones

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2017/18

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd am 2017/18

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 5 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 6.3.17 fel rhai cywir

## 7. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU 7 - 15

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

i. 20.3.17
ii. 10.4.17

## PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 06.03.17

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr, Annwen Daniels, Anwen Davies, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Eryl Jones-Williams, Tudor Owen (Cadeirydd) Angel Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams, John Wyn Williams a RH Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Cheryl Morgan (Arsylwi) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dilwyn Morgan a Peter Read

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

### 4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 12fed o Ragfyr 2016 fel rhai cywir yn ddarostyngedig i nodi fod y Cynghorydd Annwen Hughes yn bresennol.

### 5. ADOLYGIAD O'R DATGANIAD POLISI HAPCHWARAE

Cyflwynwyd Datganiad Polisi Hapchwarae drafft i'r Aelodau ei ystyried a'i gymeradwyo cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn unol â Deddf Hapchwarae 2005. Amlygwyd prif ddibenion y Ddeddf Hapchwarae ynghyd â gofynion y Comisiwn Hapchwarae i weithredwyr hapchwarae asesu'r risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu sydd yn codi yn sgil darparu cyfleusterau hapchwarae ynghyd â chael polisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli i liniaru'r risgiau hynny.

Nodwyd bod y Polisi drafft wedi ei baratoi mewn ymgynghoriad â Grŵp Trwyddedu Gogledd Cymru gyda'r nod o sicrhau cysondeb ledled y rhanbarth. Ategwyd bod Gwynedd wedi cyflwyno'r fformat a bod Cynghorau eraill y Gogledd wedi ei fabwysiadu. Derbyniwyd hyn fel gwybodaeth gadarnhaol.

Adroddwyd y byddai'r cyfnod ymgynghori yn parhau am 12 wythnos gyda'r Awdurdod Trwyddedu yn rhoi sylw i'r ymatebion a dderbynnir. Wedi cwblhau'r broses, bydd y Datganiad drafft terfynol yn cael ei ail gyflwyno i'r Pwyllgor Trwyddedu, fydd yn argymell i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu (hyn yn ofynnol o dan Adran 154 o'r Ddeddf Hapchwarae 2005).

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau unigol:

- Amlygu pryder bod hysbysebion hybu hapchwarae diddiwedd ar y teledu
- Bod cael mynediad at wasanaethau gamblo yn rhy hawdd
- Bod cwmnïau yn annog pobl i brynu tocynnau loteri drwy symleiddio prosesau talu dros y we
- Rhaid ystyried cymunedau bregus – diffyg arian gwario
- Peiriannau hapchwarae mewn tafarndai - angen osgoi gosod y rhain mewn ardaloedd bwyta teuluoedd / allan o gyrraedd plant
- Bod angen i'r Bwrdd Iechyd fod yn rhan o'r ymgynghoriad

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â'r pryderon a amlygwyd, nodwyd bod rheolaeth hysbysebion teledu tu allan i reolaeth y Pwyllgor Trwyddedu a'r Awdurdod Trwyddedu ac mai'r Comisiwn Hapchwarae oedd yn gyfrifol am y rheoleiddio.

Awgrymwyd anfon llythyr at y Comisiwn, Aelodau Cynulliad Arfon a Dwyfor Meironnydd a'r Aelodau Seneddol lleol i fynegi pryderon y Pwyllgor ar fynediad hawdd i wasanaethau hapchwarae. Amlygwyd bod dyletswydd gofal ar y Pwyllgor i amlygu hyn er mwyn gwarchod unigolion bregus.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â defnyddio swyddogion i wneud archwiliadau ar hap mewn siopau betio nodwyd na fuasai archwiliadau yn cael eu gweithredu oni bai bod asesiad risg wedi ei wneud neu dystiolaeth wedi ei gyflwyno bod pryderon / cwynion am y lleoliad / siop. Cadarnhawyd bod prawf brynu ar eitemau megis tybaco ac alcohol ond nid ar eitemau betio. Amlygwyd mai'r rheswm dros hyn oedd oherwydd nad yw'n ofyn statudol, ond petai'r Pwyllgor yn penderfynu bod hyn yn fuddiol, ni ragwelwyd rhesymau dros beidio.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag amseriad cyflwyno datganiad drafft i Bwyllgor cyn yr etholiad a bod aelodaeth y Pwyllgor yn debygol o newid erbyn cyfnod derbyn y datganiad terfynol, nodwyd bod pob Awdurdod ar draws y Gogledd wedi cytuno cyflwyno'r datganiad o fewn yr un cyfnod.

**PENDERFYNWYD yn unfryfol, cymeradwyo y Datganiad Polisi Hapchwarae drafft yn unol a Deddf Hapchwarae 2005 ar gyfer ymgynhgoriad cyhoeddus a cynigiwyd y sylwadau isod:**

- **yr Awdurdod Trwyddedu i ddrafftio llythyr yn enw'r Cadeirydd a'i anfon at y Comisiwn Hapchwarae i fynegi pryderon y Pwyllgor ar y**
  **- gorddefnydd o hysbysebion betio,**
  **- bod cwmnïau yn annog pobl i fetio a**
  **- bod mynediad at wasanaethau hapchwarae yn rhy hawdd.**
  **Copi o'r llythyr i'w anfon at Aelodau Cynulliad (Arfon a Dwyfor Meirionnydd) ar Aelodau Seneddol lleol; i'r Aelodau sydd yn cynrychioli Cyngor Gwynedd ar y Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ac at Brif Swyddogion Trwyddedu Awdurdodau Gogledd Cymru**
- **yr Awdurdod Trwyddedu i drafod gydag Adran Gyfathrebu Cyngor Gwynedd y dulliau gorau o dynnu sylw at yr ymgynghoriad cyhoeddus - annog defnyddio cyfryngau cymdeithasol**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 10:55am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 20.03.17

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Tudor Owen (Cadeirydd), Angela Russell ac RH Wyn Williams

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Cheryl Morgan (Swyddog Trwyddedu - arsylwi) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Siân W Hughes (Aelod Lleol), Yr Awdurdod Tan, Richard a Christine Archbell a Rhodri a Vanessa Williams

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – Caffi Porthdinllaen, Morfa Nefyn**

Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol a chyhoeddwyd bod gan bawb hyd at 5 munud i gyflwyno sylwadau uniongyrchol ar y cais.

**Ar ran yr eiddo:** Mr James Munday (ymgeisydd) a Mrs Wena P Williams

Eraill a wahoddwyd: Mr Ian Williams ( Heddlu Gogledd Cymru)

Mr Peter Jones, Mrs Hazel Pielow, Mr T Gareth Gruffydd, Mr Idris Williams, Mrs Shan Gruffydd, Mr Tony Connelly, Mrs Dolwen Williams

**a) Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo o'r newydd ar gyfer Caffi Porthdinllaen, Lon Golff, Morfa Nefyn mewn perthynas â chyflenwi alcohol ar ac oddi ar yr eiddo o hanner dydd tan 11 yr hwyr, pob dydd a chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio ar yr eiddo. Bydd darpariaeth cludo archebion bwyd oddi ar yr eiddo yn cael ei gynnig ac fe fydd archebu alcohol gyda'r archeb bwyd yn rhan o'r cynnig. Amlygywd bod yr eiddo yn gaffi sydd yn agored tan yn hwyr yn y prynhawn, gydag ardal allanol ar gyfer cwsmeriaid.

Tynnwyd sylw at fanylion yr oriau arfaethedig yn yr adroddiad. Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ynghyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Nodwyd bod ugain o lythyrau / e-byst wedi eu derbyn, gyda 19 yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu. Tynnwyd sylw at y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd gan yr Aelod Lleol,

Cyngor Tref Nefyn a thrigolion lleol yn yr adroddiad. Amlygwyd bod rhai o'r gwrthwynebiadau yn cynnwys pryderon am ddarpariaeth parcio, problemau parcio ar y ffordd gul ynghyd a chynnydd mewn traffig. Nid oedd ymateb wedi ei dderbyn gan yr Uned Trafnidiaeth i'r pryderon hyn.

Mewn ymateb i sylwadau am ddigwyddiadau gwrthgymdeithasol a phryderon sŵn, nodwyd nad oedd Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch Amgylchedd wedi derbyn cwynion swyddogol am hyn na chwynion am effaith goleuo hwyr y nos a gwaredu gwastraff. Nodwyd Swyddog ar ran yr Heddlu nad oedd cofnod o ddigwyddiad gwerthgymdeithasol wed ei gofnodi ganddynt.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

c) Wrth ymhelaethu ar y cais nododd yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno ac ategodd y sylwadau canlynol:

- Nad oedd bwriad agor y caffi / bwyty yn hwyrach na 9pm (digwyddiadau penodol yn unig)
- Nad oedd bwriad rhedeg y caffi / bwyty fel tafarn - bwyty gyda naws deuluol ydoedd
- Bwriad y cais am drwydded oedd cynnig alcohol gyda bwyd a byddai alcohol yn cael ei werthu oddiar yr eiddo gydag archeb bwyd yn unig
- Ei fod wedi cynnal trafodaethau gydag Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd a chytuno 6 amod oedd yn cael eu hargymell i reoli sŵn
- Nad oedd bwriad cael unedau sain tu allan i'r eiddo
- Bod cais cynllunio wedi ei gyflwyno yn cynnwys 7 lle parcio a lle troi – y cais heb ei gymeradwyo, ond y cynllun yn ymateb i safonau cenedlaethol. (Amlygodd hefyd bod ganddo hawl mynediad i gaeau ffiniol petai angen ymestyn).
- Bod gobaith i'r Cyngor ail beintio llinellau dwbl melyn ar y ffordd
- Ei fod eisoes wedi trafod y system cludo bwyd gyda Swyddog o'r Heddlu
- Nad oedd bwriad gwerthu gwinoedd rhad a gweithredu fel siop drwyddedig
- Bod yr eiddo, er yn ymddangos fel caban pren wedi ei insiwleiddio i ansawdd tŷ cyffredin - y byddai yn hapus i'r Uned Iechyd yr Amgylchedd fonitro a gwirio hyn
- Cerddoriaeth wedi ei recordio yn unig fydd yn cael ei chwarae yn yr eiddo
- Ei fod wedi cael sgwrs gyda'r Aelod Lleol i drafod ei phryderon ynglŷn â'r cais.

Cyflwynwyd a darllenwyd sylwadau diweddar gan yr Aelod Lleol o ganlyniad i'r drafodaeth.

Cafodd yr amodau sŵn a oedd wedi eu hargymell gan yr Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd, eu darllen allan gan y Rheolwr Trwyddedu.

Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar eu gwrthwynebiadau i ganiatáu trwydded gan ategu at sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr.

- Y byddai lefelau sŵn yn cynyddu ar ddigwyddiadau arbennig
- Ffordd heibio i'r caffi yn gul – pryderon y bydd damweiniau
- Bod y caeau cyfagos angen eu draenio cyn y gellid eu defnyddio ar gyfer parcio
- Angen sicrhau bod yr adeilad yn cydymffurfio gydag amodau cynllunio e.e., darpariaeth toiledau
- Angen sicrhau bod cwsmeriaid yn ymadael am 9:30pm heb alcohol

- Pryder o'r sŵn fydd yn cario o ardal y decin a'r toiledau allanol - terfyn y caffi yn ffinio a thai preswylwyr
- Gormod o safleoedd gwerthu alcohol yn y pentref
- Parcio yn bryder – ardal beryglus iawn – pa fesurau fydd yn cael eu cymryd?
- Bod angen bod yn synhwyrol wrth ystyried pryderon sŵn

ch) Cydnabuwyd llythyrau oedd wedi eu derbyn yn datgan gwrthwynebiad i'r cais gan David a Hayley Slater, John Wainwright, Christine Archbell, S H Hall, Virginia Kay, Jayne Burrell, Derek Hollinrake, Rogel Ellwood, Andy Spencer ac Wyn a Bethan Hughes

d) Nododd Swyddog o'r Heddlu nad oedd gan Heddlu Gogledd Cymru unrhyw dystiolaeth fyddai yn eu galluogi i wrthwynebu'r cais. Ers i'r caffi fod mewn bodolaeth (2007), nid oedd cwyn wedi ei gyflwyno. Nododd ei fod wedi trafod y cais gydag Mr Mundy a bod awgrymiadau ac amodau wedi eu cynnig. O ran anfon alcohol allan gyda bwyd amlygwyd y byddai modd i'r Heddlu weithredu prawf bryniant i sicrhau bod Her 25 yn cael ei weithredu. Argymhellwyd i'r trigolion gyflwyno cwynion llygredd sŵn fel bod modd gweithredu arnynt.

dd) Wrth grynhoi ei gais, amlygodd yr ymgeisydd ei barodrwydd i gydweithio gyda'r gymuned leol a'r trigolion. Nododd mai ceisio gwella ac addasu'r caffi oedd ei fwriad fel bwyty. Ategodd y byddai yn barod i gydweithio gyda'r Uned Drafnidiaeth, a Swyddog yr Amgylchedd petai cwynion sŵn yn cael eu cyflwyno.

e) Wrth ystyried y cais ystyriwyd yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003

- Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais.**

1. Caniatáu cyflenwi alcohol i'w yfed ar ac oddi ar yr eiddo, o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 12:00 (hanner dydd) a 23:00.
2. Caniatáu chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio o dan do yn unig, o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 08:00 a 21:00.
3. Oriau agor i'r cyhoedd o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 08:00 a 23:30
4. Materion oedd wedi eu cynnwys yn rhan M o'r cais yn cael eu hymgorffori fel amodau i'r drwydded.
5. Ychwanegu amod bod clipiau teledu cylch cyfyng yn cael eu cadw am o leiaf 28 diwrnod ac ar gael ar alwr Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu.
6. Ychwanegu amodau rheoli sŵn a awgrymwyd gan Iechyd Amgylcheddol ac a gytunwyd iddynt
7. Ychwanegu amod bod polisi gwasgaru cwsmeriaid ar ddiwedd noson yn cael ei lunio a'i gynnal
8. Ychwanegu amod bod yr Heddlu yn cael gwybod o fewn 14 diwrnod ymlaen llaw os oedd bwriad cynnal parti hwyr ar yr eiddo, h.y. ar ôl 21:00.

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i sylwadau ynglŷn â'r pryderon canlynol:

<u>Ymddygiad gwrthgymdeithasol</u>

Ystyriwyd sylwadau ysgrifenedig yr aelod lleol, y Cynghorydd Siân Hughes, bod digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod yn y maes parcio gyferbyn â'r eiddo yn y gorffennol.

Mynegwyd pryder o gynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol gan Virginia Kay a Jayne Burrell yn ogystal.

Tra bod yr Is-bwyllgor wedi derbyn bod digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gorffennol ac y gall fod yn berthnasol i'r amcan trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn, ni chafwyd manylion yn nhermau dyddiadau, nifer, hyd na tharddiad y digwyddiadau. Heb wybodaeth nid oedd modd i'r Is-bwyllgor ddod i gasgliad a oedd y problemau hanesyddol mor ddifrifol nes eu bod yn cynrychioli problem trosedd ac anhrefn y gellid ei briodoli gyda'r eiddo, nac yn sail i ragweld cynnydd yn y broblem pe rhoddwyd y drwydded.

Yn unol â gofynion y Swyddfa Gartref rhaid i'r Is-bwyllgor ystyried sylwadau'r Heddlu cyn dod i gasgliad os yw problem trosedd ac anhrefn yn debygol o godi os caniateir y drwydded. Cadarnhaodd yr heddlu nad oeddynt yn gwrthwynebu'r cais gan nad oedd hanes o ymddygiad gwrthgymdeithasol ynghlwm â'r eiddo oedd mor ddifrifol nes ei fod yn cynrychioli problem o drosedd ac anhrefn. O ganlyniad roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn gydnaws a'r amcan trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn.

<u>Problemau sŵn</u>

Cyflwynwyd pryderon gan sawl un y byddai caniatáu trwydded yn golygu cynnydd mewn sŵn - dyluniad anaddas y cwt ar gyfer chwarae cerddoriaeth uchel, sŵn poteli, sŵn pobl a sŵn ceir.

Derbyniodd yr Is-bwyllgor bod y pryderon sŵn yn rhai priodol ac y gallant mewn egwyddor fod yn berthnasol i'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus.

Fodd bynnag roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod y sylwadau yn ddamcaniaethol ac nad oedd sail i dystiolaeth o'r gorffennol bod y problemau sŵn yn gyfystyr â niwsans cyhoeddus. Amlygwyd petai'r problemau sŵn yn gyfystyr â niwsans cyhoeddus, byddai'r Is-bwyllgor wedi disgwyl cwynion ym meddiant Iechyd Amgylcheddol.

Cafodd yr Is-bwyllgor eu cynghori gan y Cyfreithiwr ar yr hyn oedd yn cael ei ystyried fel niwsans cyhoeddus o dan gyfraith gwlad. Nid yw niwsans cyhoeddus yn gyfystyr ag anghyfleustra. Diffinnir niwsans cyhoeddus fel yr hyn sy'n dod o ganlyniad i weithred sydd ddim yn cael ei ganiatáu gan y gyfraith neu fethiant i gwblhau dyletswydd gyfreithiol, "*...if the effect of the act or omission is to endanger the life, health, property or comfort of the public, or to obstruct the public in the exercise or enjoyment of rights common to all Her Majesty's subjects.*" Cyfeiriwyd at achos *NCB v Thorne* [1976] 1 WLR 543: "*a public nuisance [is] an act or omission which materially affects the material comfort and quality of life.*" Cyfeiriwyd hefyd at *R v Rimmington* [2005] UKHL 63 am y "*...requirement of common injury*", h.y. bod angen i gyfran sylweddol o'r cyhoedd gael ei effeithio. Nid yw'n ddigon sefydlu bod niwed wedi ei achosi i unigolion penodol.

O dan yr amgylchiadau nid oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon ar ansawdd y dystiolaeth bod unrhyw broblem sŵn sydd yn deillio o'r eiddo yn cyrraedd y diffiniad cyfreithiol o "niwsans cyhoeddus".

<u>Llygredd golau</u>

Cyflwynodd yr aelod lleol a Mrs Burrell bryder y byddai rhoi'r cais yn arwain at lygredd golau.

Cydnabuwyd bod llygredd golau yn gallu bod yn berthnasol i'r amcan o atal niwsans cyhoeddus, fodd bynnag ni dderbyniwyd tystiolaeth y byddai goleuadau ychwanegol yn cael ardrawiad difrifol nac yn cael effaith debygol ar iechyd cyhoeddus.

<u>Problem gwastraff</u>

Cyflwynodd yr aelod lleol bryder y byddai rhoi'r cais yn cynhyrchu rhagor o wastraff.

Fel gyda sŵn a goleuo, cydnabuwyd y gall gwastraff fod yn berthnasol i'r amcan o atal niwsans cyhoeddus. Fodd bynnag, heb dystiolaeth i law o lefelau tebygol o'r gwastraff fyddai'n cael ei gynhyrchu pe rhoddid y drwydded, nid oedd yr Is-bwyllgor mewn sefyllfa i ystyried y byddai peidio caniatáu'r drwydded yn cynhyrchu problem gwastraff bellach.

Traffig / parcio

Cyflwynwyd sylwadau a phryderon gan y Cyngor Tref, yr aelod lleol, Mr a Mrs Gruffydd, Mr Wainwright, Mrs Archbell, Mrs Burrell, Derek Hollinrake, Hazel Pielow ac Andy Spencer y byddai caniatáu'r drwydded yn arwain at gynnydd mewn traffig a galw am barcio fyddai yn peri risg i ddiogelwch y cyhoedd.

Derbyniwyd bod y pryderon hyn yn berthnasol i'r amcan trwyddedu o warchod diogelwch cyhoeddus. Fodd bynnag, nid oedd yr Is-bwyllgor yn argyhoeddedig bod tystiolaeth mewn cynnydd sylweddol o draffig at ac o'r eiddo yn ganlyniad o ganiatáu trwydded. Nodwyd na chyflwynwyd unrhyw sylwadau gan yr Heddlu nag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn mynegi pryderon am ddiogelwch ffordd. O ganlyniad roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon na fyddai'r cais yn uniongyrchol yn peri niwed i ddiogelwch cyhoeddus.

Diogelu plant rhag niwed

Cyflwynodd Mrs Burrell sylwadau yn pryderu y byddai newid yr eiddo o fod yn gaffi teuluol ei naws i eiddo yn gwerthu alcohol yn peri niwed i blant. Nid oedd yr Is-bwyllgor yn cytuno gyda'r datganiad yma gan ei bod yn gyffredin iawn bellach i dafarndai a llefydd trwyddedig eraill fod yn agored i deuluoedd gan gynnwys plant. Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn bwriadu cymryd camau priodol fyddai'n diogelu plant rhag unrhyw niwed, e.e. atal yfed dan-oed drwy bolisi 'her 25'.

Materion amherthnasol - Diystyriwyd rhai sylwadau / pryderon ar y sail nad oeddent yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu.

Codwyd pryderon amrywiol ynglŷn â statws cynllunio'r adeilad. Nodwyd bod caniatâd cynllunio gwreiddiol y caffi wedi ei neilltuo i unigolyn gydag amod fod yr adeilad i gael ei ddymchwel a'i adfer i ddefnydd amaethyddol ar ymadawiad yr unigolyn o'r adeilad. Nodwyd hefyd bod yr oriau agor arfaethedig yn hirach na'r oriau tymhorol Ebrill i Hydref oedd wedi ei ganiatáu yn y caniatâd cynllunio. Nodwyd hefyd bod y toiled tu allan i'r prif adeilad. Amlygwyd mai materion cynllunio oeddynt ac felly yn amherthnasol i'r amcanion trwyddedu.

Diystyrwyd hefyd y sylw bod darpariaeth ddigonol o weithgareddau trwyddedig yn yr ardal. Amlygwyd bod Deddf Trwyddedu 2003 yn nodi nad yw darpariaeth leol yn ystyriaeth berthnasol o dan gyfraith trwyddedu alcohol ac adloniant. Mynegwyd pryder y byddai caniatáu'r drwydded yn arwain at ostyngiad ym mhris eiddo cyfagos - nid oedd yn fater perthnasol i unrhyw un o'r amcanion trwyddedu a cafodd y sylw ei ddiystyru.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn gydnaws a'r oll amcanion trwyddedu a phenderfynwyd caniatáu'r drwydded.

Nodwyd mai trwydded o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003 oedd yn cael ei chaniatáu ac y byddai angen i'r ymgeisydd wneud cais i ddiwygio caniatâd cynllunio ar gyfer yr eiddo er mwyn ei ddefnyddio tu allan i'r oriau a ganiatawyd o dan amodau cynllunio.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:40am a daeth i ben am 1:00pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 10.04.17

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Eryl Jones Williams (Cadeirydd), Annwen Daniels a Louise Hughes

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Yr Awdurdod Tan a'r Cynghorydd Annwen Hughes

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO –**

Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol a chyhoeddwyd bod gan bawb hyd at 10 munud i gyflwyno sylwadau uniongyrchol ar y cais.

**Ar ran yr eiddo:** Mr Brian Welts (CTM Brnad Events), Mr Will Johnson (CTM Brand Events) a Ms Nicola Meadley (Brand Event Ltd)

Eraill a wahoddwyd: Mr Ian Williams ( Heddlu Gogledd Cymru)
Mr Euron Thomas (Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd, Gwarchod y Cyhoedd – Cyngor Gwynedd)
Cynghorydd Elwyn Edwards – Aelod Lleol

**a) Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Gŵyl Agored Eryri, Fferm Gwern Hefin, Llanycil, Y Bala gan Brand Events TM Ltd, 4, Vencourt Place, Llundain.

Gwnaed y cais mewn perthynas â chyflenwi alcohol, chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio, cerddoriaeth fyw perfformiadau dawns, dangos ffilmiau a dramâu ynghyd ac unrhyw adloniant arall a chyflenwi lluniaeth hwyr y nos ar ddydd Gwener, Sadwrn a Sul. Amlygwyd y byddai'r Ŵyl yn cael ei chynnal dros un penwythnos yn flynyddol ar yr eiddo, petai'r drwydded yn cael ei chaniatáu.

Tynnwyd sylw at fanylion yr oriau arfaethedig yn yr adroddiad. Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ynghyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Nodwyd bod pump o lythyrau / e-byst wedi eu derbyn yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus a diogelwch cyhoeddus. Tynnwyd sylw at y sylwadau a'r argymhellion a gyflwynwyd gan yr Heddlu, y Gwasanaeth Tan ac Achub, Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd a Swyddog Uned Bwyd ac Iechyd a Diogelwch, Iechyd Amgylchedd Cyngor Gwynedd.

Ategwyd bod y trefnwyr wedi bod mewn cysylltiad gyda'r ymatebwyr i geisio datrys y pryderon a nodwyd y byddai'r gerddoriaeth fyw yn dod i ben am 22:30; y byddai ffens diogelwch yn amgylchynu'r safle gyda goruchwyliaeth i sicrhau na fyddai neb sy'n mynychu'r Ŵyl yn tramwyo ar eiddo cyfagos. Amlygwyd ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi bod 4 allan o'r 5 gwrthwynebydd wedi tynnu eu sylwadau yn ôl yn swyddogol yn dilyn trafodaethau cymodi gyda'r ymgeisydd.

Cadarnhawyd bod Swyddog Iechyd a Diogelwch yn fodlon bod Cynllun Rheoli Digwyddiad wedi ei gwblhau ac ategodd Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd bod sawl trafodaeth wedi eu cynnal ar faterion sŵn, gyda chytundeb i gynnwys amodau sŵn priodol yn y cais.

Nododd y Cadeirydd bod yr adroddiad yn un cynhwysfawr a diolchwyd i bawb am gydweithio i geisio datrys y pryderon. Mewn ymateb i sylw pam nad oedd Caeau Rhiwlas ar gael ar gyfer y digwyddiad (safle sydd wedi arfer a chynnal digwyddiadau mawr), amlygodd yr Aelod Lleol nad oedd y caeau ar gael oherwydd newid mewn dull amaethu.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeiswyr eu bod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno ac ategwyd y sylwadau canlynol:

- Eu bod yn cydweithio gydag arbenigwyr i sicrhau bod pryderon traffig yn cael eu diwallu
- Y byddai cyflymder yn cael ei gyfyngu i 30mya cyn belled ag sydd yn bosibl
- Nad oedd gwrthwynebiadau wedi eu derbyn gan yr Uned Drafnidiaeth
- Y byddai bws yn cael ei ddarparu gan gwmni lleol i gludo pobl o'r dref at y safle
- Bod llwybr traed a llwybr beics addas i gyrraedd y safle
- Eu bod yn cadarnhau y byddai cerddoriaeth fyw yn dod i ben am 22:45 yn lle 23:00

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â goleuadau yn tarfu, nodwyd y byddai goleuadau diogelwch isel ar y safle drwy'r nos ond y byddai'r llifolau yn cael ei ddiffodd unwaith y byddai pobl wedi ymadael a'r safle.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag ymwelwyr i'r Wŷl yn cronni yn y twnnel tanddaearol fydd ar gael o'r maes parcio i'r safle, amlygwyd y byddai stiwardiaid ar gael i hwyluso'r drefn ar yr amseroedd prysuraf. Ategwyd y byddai angen sicrhau bod arwynebedd y llwybrau cerdded yn llyfn. Cadarnhawyd y byddai stiwardiaid ar gael drwy'r amser yn y meysydd parcio gyda chyswllt radio i ymateb i unrhyw broblemau fyddai'n codi.

ch) Cydnabuwyd y llythyr oedd wedi ei dderbyn yn datgan gwrthwynebiad i'r cais gan Mr Ivor Jones – roedd y gwrthwynebiadau eraill wedi cael eu tynnu yn ôl yn swyddogol.

d) Nododd Swyddog o'r Heddlu nad oedd gan Heddlu Gogledd Cymru unrhyw dystiolaeth fyddai yn eu galluogi i wrthwynebu'r cais. Nododd y prif sylwadau canlynol:

- Bod cynllun rheoli eisoes wedi ei gyflwyno - hyn i'w groesau
- Bod y cais yn un trylwyr – wedi ei gyflwyno yn dda
- Eu bod wedi cysylltu ag Awdurdod Cumbria i wneud ymholiadau ynglŷn â sut roedd y cwmni yn rhedeg yr Ŵyl yno
- Bod trafodaethau eisoes wedi cu cynnal gyda Phrif Arolygydd yr ardal ynglŷn â threfniadau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r effaith cronni yn y twnnel tanddaearol, cadarnhaodd y swyddog y byddai yn sicrhau bod y pryder yma yn cael i drafod yn y cyfarfod diogelwch.

dd) Nododd Uwch Swyddog Iechyd Amgylchedd nad oedd gan yr Adran bryderon ynglŷn â niwsans sŵn gan fod cynllun rheoli sŵn wedi ei gynnwys yn y cais a bod cerddoriaeth i ddod i ben cyn 22:45 (sydd yn fuan iawn o gymharu â cheisiadau eraill). Amlygwyd nad sŵn oedd ffocws y digwyddiad. Ategwyd bod trafodaethau manwl wedi eu cynnal gydag arbenigwyr sŵn a bod yr amodau wedi eu derbyn. Byddai lefelau sŵn yn cael eu monitro o 4 safle gwahanol drwy gydol yr Ŵyl gydag adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Uned Amgylchedd. Nodwyd bod y cais o ansawdd uchel a bod hyn i'w groesau ynghyd a derbyn dogfennau ymlaen llaw.

e) Yn derbyn gwahoddiad gan y Cadeirydd i gyflwyno ei sylwadau nododd yr Aelod Lleol ei fod wedi mynychu cyfarfod gyda'r ymgeisydd a'i fod yn eu llongyfarch ar yr adroddiad manwl. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â defnydd o'r iaith Gymraeg, nododd yr ymgeisydd eu bwriad o gydweithio gyda chwmni Ceidiog i hyrwyddo'r Gymraeg ac wedi trefnu cyfieithu manylion yr Ŵyl ar eu gwefan. Bydd pob datganiad i'r wasg yn ddwyieithog. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â defnyddio mudiadau lleol i gefnogi'r fenter nodwyd bod trafodaethau eisoes wedi eu cynnal gyda nifer o fudiadau lleol, y swyddfa dwristiaeth a chynrychiolydd masnachwyr y dref ac yng nghyd-destun darparwyr bwyd, bydd gwahoddiad i ddarparwyr lleol yn y lle cyntaf.

Mynegodd y Cynghorydd ei fod yn hapus gyda'r ymatebion ac nad oedd ganddo wrthwynebiad i'r fenter.

f) Wrth ystyried y cais ystyriwyd yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003

- Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais yn ddarostyngedig i amodau ychwanegol:**

Rhoddwyd y drwydded fel a ganlyn:

- Caniatáu cyflenwi alcohol i'w yfed ar ac oddi ar yr eiddo, o ddydd Gwener i ddydd Sul rhwng 10:00 a 00:00.
- Caniatáu cerddoriaeth fyw dan do ac awyr agored, o ddydd Gwener i ddydd Sul rhwng 10:00 a 22:45.
- Caniatáu chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio dan do ac awyr agored, o ddydd Gwener i ddydd Sul rhwng 10:00 a 00:00.
- Caniatáu perfformiadau dawns dan do ac awyr agored, o ddydd Gwener i ddydd Sul rhwng 10:00 a 00:00.
- Caniatáu dramâu dan do ac awyr agored, o ddydd Gwener i ddydd Sul rhwng 10:00 a 00:00.
- Caniatáu ffilmiau dan do ac awyr agored, o ddydd Gwener i ddydd Sul rhwng 10:00 a 00:00.

- Caniatáu adloniant arall dan do ac awyr agored, o ddydd Gwener i ddydd Sul rhwng 10:00 a 00:00.
- Caniatáu darparu lluniaeth hwyr yn nos dan do ac awyr agored, o ddydd Gwener i ddydd Llun rhwng 23:00 a 01:00.
- Byddai'r materion oedd wedi eu cynnwys yn rhan M o'r cais yn cael eu hymgorffori fel amodau i'r drwydded.
- Bod yr amodau rheoli sŵn a awgrymwyd gan Iechyd Amgylcheddol yn cael eu hymgorffori fel amodau ar y drwydded, gyda diwygiad i gyfarch cerddoriaeth fyw yn darfod am 22:45.

Wrth gyrraedd eu penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor y ffurflen gais ynghyd â sylwadau ysgrifenedig yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Uned Iechyd Amgylcheddol Cyngor Gwynedd, Mr Ifor Jones ac adroddiad y swyddog trwyddedu. Ystyriwyd sylwadau llafar pawb oedd yn bresennol yn y gwrandawiad yn ogystal â pholisi trwyddedu'r Cyngor ac arweiniad y Swyddfa Gartref.

Wrth ystyried sylwadau Mr Ifor Jones a oedd yn mynegi pryderu byddai caniatáu'r drwydded yn arwain at gynnydd mewn sŵn a thraffig yn yr ardal derbyniodd yr Is Bwyllgor bod sŵn yn gallu bod yn berthnasol i'r amcan o atal niwsans cyhoeddus, ond nid oedd tystiolaeth wedi dod i law bod caniatáu'r drwydded yn debygol o arwain at broblem sŵn a niwsans cyhoeddus. Gyda'r gerddoriaeth fyw yn dod i ben am 22:45 dros gyfnod o un penwythnos yn y flwyddyn, ni fyddai'r sŵn yn hwyr a rheolaidd ac felly ni ystyriwyd ei fod yn sail i honni y byddai caniatáu'r drwydded yn arwain at niwsans cyhoeddus fel y'i diffinnir yn gyfreithiol. Nododd yr Is-bwyllgor ei siom nad oedd Mr Jones yn bresennol yn y gwrandawiad i ymhelaethu ar ei sylwadau.

Wrth i'r Is Bwyllgor ystyried y gall traffig fod yn berthnasol i'r amcan trwyddedu o warchod diogelwch cyhoeddus nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn y byddai caniatáu'r drwydded yn golygu cynnydd mewn traffig a fyddai'n peri niwed i ddiogelwch cyhoeddus. Ni chyflwynwyd tystiolaeth o broblemau traffig oddi wrth Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd na'r Heddlu. Nodwyd hefyd bod ardal y Bala wedi arfer cynnal digwyddiadau mawr yn y gorffennol - fel yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Sioe Sirol - ac nad oedd tystiolaeth bod y digwyddiadau hyn wedi arwain at broblem traffig oedd yn gyfystyr â niwed i ddiogelwch cyhoeddus.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais a'r mesurau trylwyr a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:20am a daeth i ben am 12:30pm